**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/4092/20

To:
Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru
Heddluoedd Cymru

Copies to:
Brif Swyddogion Cyllid Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Cymru
Prif Gwnstabliaid Heddluoedd yng Nghymru
Prif Swyddogion Cyllid Heddluoedd yng Nghymru

17 Rhagfyr 2020

Annwyl Gomisiynwyr,

**Setliad Dros Dro yr Heddlu 2021-22**

Yn dilyn y cyhoeddiad heddiw gan y Swyddfa Gartref ynghylch y Setliad Dros Dro ar gyfer plismona yng Nghymru a Lloegr, rwyf yn ysgrifennu i ddarparu manylion am elfen Llywodraeth Cymru o Setliad Dros Dro yr Heddlu i heddluoedd yng Nghymru ar gyfer 2021-22.

Mae cyhoeddiad y Swyddfa Gartref yn nodi, wrth gymryd cydrannau'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru at ei gilydd, y bydd Heddlu Cymru i gyd yn derbyn cynnydd o 6.3% mewn cyllid yn 2021-22 o gymharu â flwyddyn yma.

Yn **Atodiad A** ceir manylion y Setliad Dros Dro ar gyfer pob heddlu yng Nghymru.

Mae’r cyfnod o ymgynghori ffurfiol ar y swm a’r dosbarthiad yn dechrau heddiw ac yn dod i ben ar 14 Ionawr 2021. Dylid anfon ymatebion at:

Simon Edwards, LGFPSettlement@llyw.cymru

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu’n niweidiol) y byddai’r setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Yn ogystal â hynny, rydym yn gwahodd sylwadau a ellid llunio’r setliad arfaethedig, neu ei ddiwygio, i gael effeithiau cadarnhaol, neu lai o effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gall copïau o ymatebion gael eu rhoi yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, dylech nodi hyn yn glir yn eich ymateb. Bydd hyn yn cael ei ystyried gan gydnabod ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb a dderbynnir erbyn y dyddiad cyflwyno cyn gwneud y penderfyniad terfynol a'i gyhoeddi.

Caiff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu hatgoffa o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd lle y bônt yn berthnasol. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Byddaf yn ystyried yr ymatebion i gyd cyn gwneud penderfyniad terfynol a chyhoeddi Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2021-22 (Comisiynwyr Heddlu a Throseddu). Mae disgwyl i'r ddadl ar yr adroddiad hwn gael ei gynnal yn y Senedd yn Chwefror 2021.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

## Atodiad A: Setliad Dros Dro'r Heddlu ar gyfer Cymru, 2021-22

### Tabl 1: Asesiad o Wariant Safonol (£m)

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 35.151 | 35.860 | 36.618 | 37.049 | 37.492 |
| Gwent | 52.407 | 53.462 | 54.593 | 55.236 | 55.896 |
| Gogledd Cymru | 50.621 | 51.654 | 52.743 | 53.377 | 54.012 |
| De Cymru | 122.186 | 124.630 | 127.269 | 128.757 | 130.295 |
| **Cyfanswm** | **260.364** | **265.606** | **271.223** | **274.419** | **277.694** |

### Tabl 2: Cyllid Allanol Cyfun (RSG+NNDR, £m)

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 12.870 | 13.101 | 13.355 | 13.150 | 13.030 |
| Gwent | 30.583 | 31.083 | 31.701 | 31.790 | 31.857 |
| Gogledd Cymru | 21.907 | 22.122 | 22.496 | 22.614 | 22.523 |
| De Cymru | 73.341 | 74.594 | 75.848 | 75.845 | 75.989 |
| **Cyfanswm** | **138.700** | **140.900** | **143.400** | **143.400** | **143.400** |

### Tabl 3: Grant yr Heddlu a Chyllid Gwaelodol (£m)[1]

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 36.443 | 36.212 | 36.993 | 40.967 | 44.497 |
| Gwent | 40.904 | 40.404 | 41.287 | 46.660 | 51.539 |
| Gogledd Cymru | 49.821 | 49.606 | 50.738 | 56.101 | 61.153 |
| De Cymru | 84.066 | 82.812 | 84.864 | 96.895 | 107.639 |
| **Cyfanswm** | **211.234** | **209.034** | **213.882** | **240.622** | **264.828** |

### Tabl 4: Cyfanswm Cymorth Canolog (£m)

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 49.313 | 49.313 | 50.348 | 54.116 | 57.528 |
| Gwent | 71.487 | 71.487 | 72.988 | 78.451 | 83.396 |
| Gogledd Cymru | 71.728 | 71.728 | 73.234 | 78.715 | 83.677 |
| De Cymru | 157.407 | 157.407 | 160.712 | 172.740 | 183.629 |
| **Cyfanswm** | **349.934** | **349.934** | **357.282** | **384.022** | **408.228** |

### Tabl 5: Newid mewn Cyfanswm Cymorth Canolog ers y flwyddyn flaenorol

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | -1.4% | 0.0% | 2.1% | 7.5% | 6.3% |
| Gwent | -1.4% | 0.0% | 2.1% | 7.5% | 6.3% |
| Gogledd Cymru | -1.4% | 0.0% | 2.1% | 7.5% | 6.3% |
| De Cymru | -1.4% | 0.0% | 2.1% | 7.5% | 6.3% |
| **Cyfanswm** | **-1.4%** | **0.0%** | **2.1%** | **7.5%** | **6.3%** |

Nodiadau:
1 Dyma swm grant yr heddlu a nodir yn adran 3 a Adroddiad Grant yr Heddlu sy’n cynnwys y dyraniad o dan ‘Prif Fformiwla’ ac ‘Ychwane gu Rheol 1’ (colofnau a a b) plws swm y ’cyllid gwaelodol’ y mae’r Swyddfa Gartref wedi’i sicrhau sydd ar gael.